Claire Price
Clinig Harddwch Claire Price
Tŷ Beechcroft
Ffordd Henffordd
Y Fenni
NP7 6LE

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWInspections@wales.gsi.gov.uk

29 Gorffennaf 2014

Annwyl Claire Price,

**Parthed: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â Chlinig Harddwch Claire Price ar 27 Mehefin 2014 ac ymweliad gyda rhybudd ar 12 Awst 2014**

Fel y gwyddoch fe gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd â Chlinig Harddwch Claire Price ar 27 Mehefin 2014 ac ymweliad gyda rhybudd ar 12 Awst 2014.

**Cefndir**

Cafodd Clinig Harddwch Claire Price ei gofrestru gyntaf ym mis Mawrth 2005 ac mae wedi'i gofrestru i ddarparu ystod o driniaethau gan ddefnyddio technoleg Golau Pwls Dwys (IPL). Roedd yr ymweliad arolygu'n canolbwyntio ar ddadansoddi amrywiaeth o ddogfennaeth, trafod gyda'r darparwr cofrestredig, archwilio cofnodion cleifion a thaith o amgylch y safle.

Roedd Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion yn bodoli ond roedd angen diweddaru'r ddau â chyfeiriad cyfredol AGIC. Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar gael gyda'r dyddiad y cawsant eu llunio a'r dyddiad adolygu disgwyliedig. Fodd bynnag, nid oedd cofnod o staff yn llofnodi i ddatgan eu bod wedi darllen a deall yr amryw bolisïau a gweithdrefnau.

Roedd cofnodion cynhwysfawr ar gyfer cleifion a oedd yn cynnwys holiadur meddygol a ffurflen cydsynio i driniaeth. Fodd bynnag, nodwyd fod angen diweddaru dogfennaeth ar gyfer cleifion unigol o ran hanes meddygol a chydsyniad yn ystod pob ymweliad i gael triniaeth; trafodwyd hyn ar adeg yr arolygiad.

Cyn unrhyw driniaeth, roedd cleifion yn cael prawf ar ran fach o'r croen i sicrhau bod eu croen yn addas i gael y driniaeth.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Roedd holiaduron bodlonrwydd cleifion ar gael i'w cwblhau, ac roedd cleifion yn cael eu hannog i wneud sylwadau ar wefan y clinig. Roedd y dadansoddiad o sylwadau ar gael i'w adolygu ar y wefan hefyd. Roedd adborth gan gleifion yn dynodi bod pobl yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei gael ac ni fu unrhyw gwynion dros y ddwy flynedd flaenorol.

Cafodd yr adolygwyr eu hysbysu bod hyfforddiant gorfodol mewn tân, diogelu data, iechyd a diogelwch, a rheoli heintiau'n cael ei gynnal mewn cyfarfodydd diweddaru misol ond nid oedd unrhyw gofnodion o'r cyfarfodydd hyn. Hysbyswyd y Rheolwr Cofrestredig y dylid gwneud a chadw cofnod o hyfforddiant. Nid oedd hyfforddiant mewn Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) wedi cael ei gynnal am fwy na phum mlynedd. Roedd amserlenni cadw tŷ wedi'u sefydlu, ond nid oeddent wedi cael eu cwblhau am y chwe mis diwethaf.

Cafodd ffeiliau staff eu hadolygu a chanfuwyd nad oeddent yn cynnwys ffotograffau ac nid oedd statws y Swyddfa Cofnodion Troseddol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (CRB/DBS) yn gyfredol. Hefyd, nid oedd cofnodion o arfarniadau staff ers Chwefror 2013.

**Y Safle, yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau**

Roedd y safle'n lân ac wedi'i addurno'n dda, gyda'r ystafell a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer triniaeth â pheiriant Golau Pwls Dwys wedi'i lleoli yn y rhan flaen ar lawr cyntaf yr adeilad. Peiriant Depilite Yperion oedd y peiriant Golau Pwls Dwys a oedd wedi'i gofrestru, ac fe'i gweithgynhyrchwyd yn Ffrainc. Roedd wedi bod yn cael ei gynnal a'i gadw gan gwmni  â masnachfraint yn y DU, ond roedd y cwmni hwnnw bellach wedi rhoi'r gorau i fasnachu. Roedd y cofnod diwethaf o drin y peiriant yn dyddio'n ôl i Chwefror 2013, ac ers hynny ymddengys mai'r unig ddewis ar gyfer cynnal a chadw oedd dychwelyd y peiriant i Ffrainc, am gost sylweddol. Roedd peth ansicrwydd hefyd ynghylch amlder y rhaglen cynnal a chadw a oedd yn ofynnol, ac awgrymir y dylid ymgynghori ag Ymgynghorydd Diogelwch Laser (LPA) ynghylch y mater yma. Roedd Protocolau Meddygol a Rheolau Lleol yn bodoli ar gyfer y peiriant Golau Pwls Dwys, a chafodd y rhain eu diwygio ddiwethaf yn 2009.

Roedd Goruchwylydd Diogelwch Laser wedi cael ei benodi ar gontract am y cyfnod o 1 Ebrill 2014 tan 31 Mawrth 2015, ac roedd yr Ymgynghorydd Diogelwch Laser wedi ymweld â'r safle ddiwethaf ar 17 Ionawr 2014, ac wedi paratoi adroddiad. Roedd y Goruchwylydd Diogelwch Laser wedi cael hyfforddiant diweddaru ym mis Mawrth 2014, ac roedd yr Ymgynghorydd Diogelwch Laser wedi cytuno y gallai diweddariadau hyfforddiant gael eu rhaeadru i staff, ar yr amod bod yr wybodaeth hon yn cael ei chofnodi'n ffurfiol. Roedd hyn yn dal heb ddigwydd. Ar ben hynny, roedd pedwar arall a oedd yn defnyddio'r peiriant Golau Pwls Dwys, yn ychwanegol at y Goruchwylydd Diogelwch Laser, yr oedd yr hyfforddiant hwn yn ofynnol ar eu cyfer.




Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Roedd arwyddion rhybuddio addas yn cael eu harddangos y tu allan i ddrws yr ystafell driniaeth, ac roedd sbectols diogelwch yn cael eu darparu yn unol â'r Rheolau Lleol. Roedd y peiriant yn gweithio â cherdyn, ac roedd y cerdyn yn cael ei gadw mewn tun wedi'i gloi.

Roedd Asesiad Risg Tân yn bodoli, ac roedd wedi cael ei adolygu ym mis Mehefin 2014. Roedd system synwyryddion mwg Gradd D wedi'i chysylltu â'r prif gyflenwad trydan yn bresennol yn yr ardaloedd cylchdroi, gyda chyflenwad batri integredig wrth gefn. Roedd y rhain yn cael eu profi bob wythnos. Roedd y gosodiad goleuadau argyfwng wedi cael ei trin/ei brofi ddiwethaf ar 18 Mehefin 2014, ac roedd y clinig yn disgwyl am y dystysgrif ar gyfer yr archwiliad hwn.

Roedd y gosodiad gwifrau trydanol a'r gosodiadau nwy wedi cael eu hailbrofi'n ddiweddar, ac roedd y clinig yn disgwyl am y tystysgrifau. Cafodd y diffoddwyr tân eu trin ym mis Rhagfyr 2013. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gyfredol yn cael ei harddangos yn y brif dderbynfa.

**Asesiadau Risg ar gyfer Gweithgareddau ac Offer**

Fe wnaeth yr ymweliad amlygu'r meysydd nodedig canlynol:

- Mae gofal yn berson-ganolog, ac mae preifatrwydd, urddas ac unigolrwydd yn cael eu hystyried

Pryderon:

- Nid oedd unrhyw systemau cofnodedig ar gyfer addysg orfodol gan gynnwys tân, rheoli data, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau
- Nid oedd cylch o archwiliadau clinigol wedi'i ddogfennu
- Nid oedd asesiadau rheoli risg

Rhoddwyd adborth ar lafar trwy gydol ac ar ddiwedd yr ymweliad.

**Gofynion newydd o ganlyniad i'r arolygiad hwn:**



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

| Camau Gweithredu sy'n Ofynnol | Rhif y Rheoliad |
|---|---|
| Mae angen i staff lofnodi i gadarnhau y byddant yn ymlynu wrth bolisïau | Rheoliad 9 (1) (3) (4) |
| Nid oedd amserlenni cadw tŷ wedi cael eu cwblhau | Rheoliad 9(1)(c)(d)(e)(k)(n) |
| Ni welwyd tystiolaeth o bolisi a system rheoli risgiau | Rheoliad 9. (1) (e) (k) |
| Canfuwyd fod hyfforddiant gorfodol wedi dyddio a'i fod yn anghyflawn ac nid oedd cofnodion eglur o hyfforddiant a oedd wedi cael ei ddarparu | Rheoliad 20(1)(a)(b) + 20 (2) (a) (b) |
| Mae angen adolygu a diweddaru'r Datganiad o Ddiben | Rheoliad 8 |
| Adolygu'r Canllaw i Gleifion | Rheoliad 7 |
| Roedd angen hyfforddiant mewn Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed | Rheoliad 16 (1) (3)a |
| Mae angen diweddaru hanes meddygol a chydsyniad mewn cofnodion ar gyfer cleifion yn ystod pob ymweliad i gael triniaeth | Rheoliad 23 (1) (a) (1)(2) (3) (a) |
| Mae angen ffotograffau a CRB cyfredol yn ffeiliau'r staff. Dylid cynnal arfarniadau ar gyfer staff. | Rheoliad 20 (1) (a) Rheoliad 21 (2) (d) |
| Cadarnhau pa mor aml y dylid trin y peiriant Golau Pwls Dwys | Rheoliad 45(1) |
| Cofnodi'n ffurfiol yr hyfforddiant a raeadrwyd i staff, yn unol ag adroddiad yr Ymgynghorydd Diogelwch Laser | Rheoliad 45(3) |
| Anfon copi ymlaen o'r adroddiad ar yr archwiliad diwethaf o'r goleuadau argyfwng | Rheoliad 26(4)(b) |
| Anfon copi ymlaen o'r adroddiad ar yr archwiliad | Rheoliad 26(2)(a) |



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

| Camau Gweithredu sy’n Ofynnol | Rhif y Rheoliad |
|---|---|
| diwethaf o’r gosodiad gwifrau trydanol | |
| Anfon copi ymlaen o’r adroddiad ar yr archwiliad diwethaf o’r gosodiad nwy | Rheoliad 26(2)(a) |
| Paratoi rhaglen o bwyntiau gweithredu i roi sylw i’r pwyntiau sy’n dal heb eu gweithredu yn y tri adroddiad uchod | Rheoliad 26(2)(a) |

Hoffai AGIC ddiolch i aelodau o staff am eu hamser a’u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddiymdroi os byddwch yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir

**Phil Price**
Rheolwr Arolygu

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk